
# Strategaeth Dwristiaeth

RHONDDA CYNON TAF




RHONDDA CYNON TAF



**Mae Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn enwog ledled y byd am ei rôl ganolog yn y chwyldro diwydiannol ac rydyn ni'n parhau i fod yn falch o'n treftadaeth gyfoethog a'n hanes diwylliannol. Fodd bynnag, nawr bod y pyllau glo wedi mynd, mae ein tirwedd wedi dychwelyd i ehangder harddwch naturiol syfrdanol sydd cystal ag unrhyw dirwedd yn y wlad. Yr unig wahaniaeth rhwng tirwedd RhCT a'r rheini sydd eisoes yn gyrchfannau twristiaeth mawr yw bod ein tirwedd ni ar y cyfan yn dal i fod yn gyfrinach!**

Mae gan y Cyngor gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer twristiaeth ac mae'r strategaeth yma'n ceisio sefydlu RhCT fel:

> "Y prif gyrchfan yn y DU ar gyfer ymweliadau a gwyliau yn seiliedig ar "brofiad", gan arddangos ein tirwedd, diwylliant a'n treftadaeth o'r radd flaenaf."

Yn ganolog i'r weledigaeth yma mae cryfder ein tirwedd naturiol, ein diwylliant a'n treftadaeth. Mae ein tirwedd yn syfrdanol ac yn sefyll ochr yn ochr ag unrhyw un o gyrchfannau mwyaf poblogaidd y DU. Mae ein hanes cymdeithasol a'n hasedau treftadaeth yn adrodd stori am arloesedd, dyfeisgarwch a chymunedau angerddol y Cymoedd. Mae'r elfennau unigryw, cadarnhaol a deniadol yma'n gosod sail y bydd modd i'r Strategaeth yma adeiladu arnyn nhw a'u gwella.

Cytundeb Dinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd

Parc Rhanbarthol y Cymoedd — Valleys Regional Park

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth yma mae angen i ni weithio'n strategol i osod RhCT fel rhywle lle mae'r canlynol yn wir:

- Rydyn ni ar flaen y gad o ran twristiaeth antur, gan ddefnyddio ein tirwedd unigryw i greu atyniadau newydd a chyffrous ochr yn ochr â sefydlu RhCT fel y lle amlwg i ymweld â hi ar gyfer gweithgareddau antur/adrenalin.
- Ni yw'r prif gyrchfan i bawb sy'n ceisio ffordd o fyw egnïol, gan wneud y mwyaf o fuddion ein tirweddau rhagorol.
- Rydyn ni'n gwneud y mwyaf o'n diwylliant a'n treftadaeth ffyniannus, a fydd o fudd i drigolion ac i dwristiaid.
- Nid lle i aros yn unig yw ein llety ond mae'n brofiad ynddo'i hun.
- Bydd y bwyd, diod, atyniadau ac achlysuron rhagorol a fydd wrth wraidd ein cynnig yn cael eu darparu a'u cyrchu'n lleol.
- Mae ein calendr yn llawn o'r achlysuron lleol gorau a'r achlysuron mawr ym myd y celfyddydau a chwaraeon.
- Yn y bôn, mae RhCT yn gyrchfan gydag ymdeimlad o ddrama ac mae'n rywle lle mae straeon ein gorffennol arloesol yn cael eu hadfywio gan gynnig profiad cyfoes o'r radd flaenaf i ymwelwyr.

## Pam rydyn ni'n gwneud hyn?

**Dros y pum mlynedd diwethaf mae Cymru wedi croesawu'r nifer uchaf erioed o ymwelwyr. Caiff hyn ei adlewyrchu yn niferoedd ymwelwyr RhCT – cafwyd y nifer uchaf erioed o ymwelwyr* yn 2019, sef 1.5 miliwn o ymwelwyr yn ystod y dydd a thros 500,000 o arosiadau dros nos*.**

Mae dros 9% o'r gweithlu yng Nghymru bellach yn cael ei gyflogi ym maes twristiaeth. Mae'n un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yn y wlad ac amcangyfrifir bod twristiaeth werth £179 miliwn* i economi RhCT yn 2019 ac wedi cyflogi dros 2000 o bobl. Mae'n amlwg bod gan dwristiaeth y potensial i fod yn brif ysgogydd yr economi leol ac yn ffynhonnell cyflogaeth mewn rhannau helaeth o'r Fwrdeistref Sirol.

## Beth sydd angen i ni'i wneud?

**Mae'n amlwg bod y diwydiant twristiaeth yn newid. Mae pobl yn symud i ffwrdd o wyliau parod traddodiadol ac yn lle hynny maen nhw'n mynd ati i greu eu gwyliau eu hunain fwyfwy, gan drefnu trwy'r rhyngrwyd yn bennaf. Maen nhw'n chwilio am wyliau yn seiliedig ar "brofiad" sy'n cynnig cyfle i gymryd hunlun unigryw.**

Er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd sy'n codi wrth gyfuno ein tirwedd a'n treftadaeth wych ag wyneb newidiol twristiaeth, mae'r strategaeth yma'n argymell ein bod yn targedu ein hymdrechion yn y meysydd canlynol:

- **1.** Cynnyrch ac Atyniadau
- **2.** Llety
- **3.** Hygyrchedd, Seilwaith a Chysylltedd
- **4.** Cyflogaeth a Sgiliau
- **5.** Profiad

*STEAM Summary 2019 RCTCBC, GTS (UK) Ltd



# 1 Cynnyrch ac Atyniadau






**Mae'n hanfodol ein bod ni'n adeiladu ar ein cynnyrch a'n hatyniadau presennol i ymwelwyr trwy ddatblygu cyrchfannau newydd o safon uchel. Mae llwyddiant 'economi ymwelwyr' RhCT yn dibynnnu ar fod â nifer fawr o gynigion safon uchel ac unigryw i ymwelwyr lle mae modd creu rhaglenni a phecynnau teithio ar gyfer arosiadau hir a byr.**

Er mwyn gwireddu'n huchelgais o fod y prif gyrchfan yn y DU ar gyfer ymweliadau a gwyliau yn seiliedig ar "brofiad", mae angen i ni ddatblygu cyfres o atyniadau strategol sy'n adnabyddus yn genedlaethol. Rhain fydd yr angor i'r cynnig llawn sydd gyda ni i ymwelwyr. Atyniadau fel Zip World a datblygiad posibl Twnnel Cwm Rhondda yw'r union bethau sydd eu hangen arnon ni i ddenu pobl o bob cwr i'r ardal.

Bydd datblygiad yr atyniad newydd, Zip World Tower, ar hen safle Glofa'r Tŵr yn Rhigos yn rhoi hwb enfawr i'n cynnig twristiaeth. Serch hynny, mae'n hanfodol ein bod ni'n gwarchod rhag ymwelwyr sy'n defnyddio Zip World Tower yn unig ac yna'n dychwelyd adref heb ymweld ag unrhyw rannau eraill o'n hardal, heb wario arian yn ein cymunedau a rhoi hwb i'r economi leol.

Mae nifer y bobl sy'n ymweld â RhCT yn cynyddu bob blwyddyn ond mae'r mwyafrif helaeth sy'n dod yn ymweld am y dydd. Er mwyn sicrhau'r buddion economaidd mwyaf posibl i'n cymunedau yn y sector twristiaeth, mae angen i ni greu'r amodau lle mae'r ymweliadau dydd hynny yn cael eu troi'n arosiadau dros nos, a'r arosiadau dros nos yn troi'n wyliau penwythnos ac yn y pen draw, bydd RhCT yn cael ei sefydlu fel cyrchfan o bwys ar gyfer gwyliau llawn.

Mae'n hanfodol felly ein bod ni'n sefydlu cyfres o atyniadau a fydd yn annog ymwelwyr i ymgymryd â nifer o weithgareddau dros fwy nag un diwrnod. Mae eisoes gyda ni nifer o atyniadau yn RhCT sy'n cyflawni'n dda – mae Lido Cenedlaethol Cymru - Lido Ponty, Taith Pyllau Glo Cymru ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda, Profiad y Bathdy Brenhinol a Distyllfa Wisgi Penderyn i gyd yn gweld niferoedd cadarn o ymwelwyr. Er ei bod yn bwysig parhau i gefnogi a datblygu'r rhain yn y dyfodol, mae angen hefyd i atyniadau ychwanegol gael eu datblygu a fydd yn arddangos ein huchelgais i fod yn brif gyrchfan sy'n seiliedig ar brofiad.

Gall y rhain fod ar sawl ffurf. Mae modd i ni efelychu atyniadau sy'n llwyddiannus mewn rhannau eraill o'r DU ac Iwerddon, megis Zip World a phontydd rhaff uchel. Mae modd i ni wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd gyda ni eisoes megis datblygu Twnnel Cwm Rhondda fel y twnnel hiraf o'i fath yn Ewrop, a'r cronfeydd dŵr syfrdanol sydd gyda ni sydd, ar y cyfan, wedi'u cuddio rhag y cyhoedd. Mae hefyd yn bwysig ein bod ni'n dod o hyd i gynnyrch ac atyniadau arloesol a fydd yn ein rhoi ar flaen y gad ym maes twristiaeth antur a hamdden awyr agored.

Bydd angen llunio cynlluniau gweithredu i nodi'r meysydd lle mae modd datblygu atyniadau newydd a lle bo hynny'n briodol, gweithio gyda darparwyr sy'n arwain y sector fel bod modd eu cyflawni.

Yn ogystal â chyflawni'r atyniadau mawr yma, mae'n bwysig ein bod ni'n sicrhau'r budd a'r defnydd mwyaf posibl o'n hasedau ar raddfa lai, fel Llyn Cwm Clydach a Chrochendy Nantgarw, gan fod ganddyn nhw rôl sylweddol wrth ddarparu cynnig cyflenwol ac ychwanegol ochr yn ochr â'n prif atyniadau.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi nodi'r angen i annog mynediad i ddefnyddwyr ar ei dir, nid yn unig i gysylltu cymunedau lleol â'u tirwedd yn rhan o'r agenda Teithio Llesol ac Iechyd a Lles ond hefyd i annog presenoldeb gwarchodaeth mewn coedwigaeth ynysig ac amgylcheddau gwledig. Mae agor llwybrau coedwigaeth yn cyflwyno cyfleoedd sylweddol i dwristiaid archwilio ardaloedd a oedd gynt yn anhygyrch iddyn nhw, a chyfle i osod seilwaith i wasanaethu'r ymwelwyr hynny.







# 2 Llety

**Bydd ein cynnig llety yn amrywio o westai boutique moethus i dai bynciau a chyfleusterau carafanio o safon. Er mwyn sicrhau ein bod ni'n cyflawni ein huchelgais i gynyddu nifer yr ymwelwyr sy'n aros yn RhCT yn sylweddol, mae'n hanfodol ein bod ni'n gweld cynnydd yn nifer y cyfleusterau llety sydd ar gael yn y Fwrdeistref Sirol. Mae angen i'r llety fod o safon uchel, yn amrywiol ei natur a fydd hefyd yn apelio at ystod eang o ymwelwyr.**

Yn seiliedig ar y ffigurau cyfredol, does gan RhCT ddim digon o leoedd gwely na llety i fodloni nifer bresennol yr ymwelwyr sy'n teithio i RhCT. Gyda phrosiectau posibl fel Zip World Tower yn datblygu yn yr ardal, mae disgwyl y bydd nifer yr ymwelwyr yn cynyddu'n sylweddol ac felly mae datblygu llety ychwanegol yn hanfodol er mwyn manteisio ar y cynnydd cysylltiedig mewn gwariant.

Mae cyfle i ddarparu cynnig llety unigryw sydd wedi'i deilwra'n benodol i'r math o dwristiaeth a'r lleoliadau rydyn ni'n ceisio'u hyrwyddo a'u datblygu. Mae twristiaid antur yn gwerthfawrogi'r profiad y gall cynigion gwahanol fel 'glampio' ei ddarparu ac mae cynnydd yn y defnydd o gartrefi modur a llety 'Airbnb' yn ein hardal yn dangos bod galw am ystod o lety hunanddarpar. Dyma gyfle felly i'r economi leol yng nghymunedau'r cymoedd gael hwb sylweddol wrth i'r eiddo presennol gael ei addasu i ateb y galw cynyddol gan ymwelwyr.

Mae cyfleoedd i ystyried datblygu gwestai a all wasanaethu nifer fawr o dwristiaid mewn trefi allweddol fel Pontypridd. Mae modd hefyd cydnabod trefi fel Aberdâr yn dref dwristaidd wrth borth ein tirwedd 'antur' a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae'r cynnig llety yn RhCT yn cynyddu ac yn cryfhau wrth i westai presennol fel Neuadd Llechwen a'r Premier Inn ehangu eu capasiti ac wrth i newydd-ddyfodiaid i'r farchnad fel y gwesty boutique moethus yn Neuadd Glan-elái dynnu sylw at ba mor llwyddiannus y gall cynnig o safon fod.

Mae cyfleoedd cyllido ar gael trwy Barc Rhanbarthol y Cymoedd a Chroeso Cymru ac mae'r rhain yn helpu i hwyluso'r gwelliannau i'r cyfleusterau gwesty ym Mharc Gwledig Cwm Dâr a Cardiff Arms Bistro yn Nhreorci. Serch hynny, mae'n bwysig bod y momentwm yn cael ei gynnal a bod yr holl gyfleoedd i gael cyllid yn cael eu defnyddio i'r eithaf.













# 3 Hygyrchedd, Seilwaith a Chysylltedd




**Mae llwyddiant cyrchfan twristiaeth yn dibynnu ar ei seilwaith a'i chysylltedd. Mae cysylltiadau trafnidiaeth ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus, cyfleusterau parcio ceir, arwyddion, cyfleusterau hygyrch a deall sut maen nhw'n cydgysylltu yn hanfodol er mwyn sicrhau profiad cadarnhaol i ymwelwyr.**

Mae gan RhCT seilwaith a chysylltedd da â'r A470 (Ffordd Cambrian), yr A465 a'r M4, sy'n cysylltu RhCT â Chaerdydd a Chasnewydd yn y De, Abertawe yn y Gorllewin a thua'r gogledd drwy Ganolbarth Lloegr, gan deithio trwy rai o'r tirweddau mwyaf hardd sydd gan Gymru i'w cynnig. Mae cyrchfannau fel Bryste a Chaerfaddon o fewn awr a hanner i ddalgylch RhCT ac mae'r A465 yn cysylltu RhCT â'r Fenni, Trefynwy, a Chanolbarth Lloegr. Mae hyn yn gosod RhCT yn ffafriol o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Erbyn 2022/23, bydd cysylltedd i mewn i RhCT, ac o fewn RhCT ei hun, yn cael ei wella'n sylweddol trwy'r Metro a Thrydaneiddio Rheilffordd y Cymoedd. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi nodi buddion fel amseroedd teithio gwell, amodau gwell i gymudwyr a chyfleusterau gorsaf wedi'u hadnewyddu. Bydd deuoli'r A465 yn gwella hygyrchedd i Ogledd Cwm Cynon.

Mae angen cydnabod hefyd bod gan y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr sy'n dod i RhCT y potensial i arwain at faterion fel y rhai a welir bellach mewn lleoedd fel y Storey Arms ym Mannau Brycheiniog. Yma, mae nifer fawr o ymwelwyr â Phen y Fan yn gorfod parcio dros ymylon y briffordd gan nad yw seilwaith y cyfleusterau parcio a'r drafnidiaeth gyhoeddus bellach yn addas.

Mae'n bwysig bod cynlluniau strategol yn cael eu datblygu i nodi cyfleoedd i ddarparu meysydd parcio newydd i wasanaethu'r atyniadau newydd i ymwelwyr sy'n cael eu rhagweld gan y strategaeth yma. Bydd yn gynyddol bwysig bod Metro De Cymru yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau bosibl gan gynnig trafnidiaeth integredig a fydd yn annog ymwelwyr i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus a defnyddio dulliau teithio carbon isel eraill.

Dylid datblygu seilwaith i wasanaethu anghenion ymwelwyr gan gynnwys cyfleusterau toiled. Mae angen mynd i'r afael hefyd â'r her o wneud atyniadau treftadaeth ac antur yn hygyrch i bawb wrth ddatblygu ein cynlluniau cyflawni.

Mae seilwaith a fydd yn cyflawni uchelgais lleihau carbon y Cyngor yn hanfodol a bydd angen datblygu, gweithredu a chynnal cynlluniau ar gyfer atebion cynaliadwy arloesol a "gwyrdd". Dylid ymchwilio i gyllid a fydd yn cefnogi mentrau carbon niwtral er mwyn rhoi cyfle i RhCT arwain y ffordd ym maes arloesedd twristiaeth werdd. Mae cyfle i dreialu mentrau, megis lleoedd i aros sy'n garbon niwtral, sy'n cydblethu mesurau a chamau gweithredu carbon effeithlon sy'n diogelu bioamrywiaeth ac yn rheoli systemau eco yn effeithiol.

Mae angen archwilio rôl seilwaith digidol ymhellach gyda'r bwriad o roi RhCT ar flaen y gad o ran cyrchfannau sydd wedi'u cysylltu'n ddigidol. Dylid ymchwilio i'r defnydd o dechnoleg symudol er mwyn galluogi platfform cadw lle integredig sy'n caniatáu trefnu tocynnau, pecynnau a theithlenni ar-lein trwy wefan dwristiaeth RhCT.










# 4 Sgiliau a Chyflogaeth









**Er mwyn gwella'r economi twristiaeth yn RhCT mae angen annog datblygiad sgiliau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a rhoi cymorth i greu swyddi diogel â chyflog da yn y diwydiant ar gyfer trigolion lleol.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi twristiaeth fel un o'r naw Sector Blaenoriaeth sy'n sail i Economi Cymru. Mae twristiaeth yn RhCT werth dros £179* miliwn i'r economi leol, ac felly mae'n hanfodol bod cymunedau'n dod yn effro i bwysigrwydd manteisio ar y buddion sydd i'w cael o nifer gynyddol o ymwelwyr, a bod busnesau lleol yn datblygu sgiliau a fydd o fudd i'r sectorau gwasanaethau i gwsmeriaid a thwristiaeth. Mae Cynllun Corfforaethol RhCT 2020-2024, "Gwneud Gwahaniaeth" ac "Ein Cwm Taf", sef Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn nodi pwysigrwydd datblygu'r cynnig Twristiaeth gan fod yn gefn i fusnesau yn y rhanbarth, a chydnabod bod cryfder y cynnig i ymwelwyr yn RhCT yn deillio o'n cymunedau lleol.

Yn ôl adroddiad data Arolwg Sgiliau Cyflogwyr: 2019 Cymru, roedd 1,100 o swyddi gwag yn y sector Gwestai a Bwytai yn 2019 oherwydd prinder sgiliau. Gyda'r hyfforddiant a'r cymorth cywir, bydd cyfleoedd sylweddol yn cyflwyno'u hunain er mwyn i bobl a busnesau lleol ffynnu mewn diwydiant twristiaeth bywiog. O ystyried natur y cynnig twristiaeth sy'n seiliedig ar antur a thirwedd sy'n debygol o ffynnu, mae potensial i ystod eang o gyfleoedd a swyddi lletygarwch ddod ar gael yn yr union leoedd yn RhCT lle mae cyfleoedd am gyflogaeth wedi achosi'r her fwyaf.

Wrth i'n cynnig twristiaeth ffynnu mae'n naturiol y bydd cyfran fawr o'r sawl sy'n ymweld â RhCT yn dod yma am y tro cyntaf ac efallai y bydd eu canfyddiad o'n cymunedau a'n tirwedd o'r hen faes glo wedi'i ragfarnu gan straeon hen ffasiwn ac ystrydebol. Mae'n hanfodol felly, ochr yn ochr ag amgylchedd corfforol a naturiol o ansawdd uchel, bod angen i'r gwasanaeth i gwsmeriaid maen nhw'n ei dderbyn fod o'r ansawdd uchaf tra'u bod nhw yma. Mae'n hollbwysig nad yw swyddi lletygarwch yn swyddi israddol ac mae angen i bobl sy'n gweithio yn y sector gael eu hyfforddi a'u gwerthfawrogi'n dda er mwyn darparu'r profiad gorau posibl i gwsmeriaid ac ymwelwyr.

Fel pwynt gwerthu unigryw, mae cyfleoedd i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sectorau lletygarwch a llety a darparu sgiliau Cymraeg i'r gweithlu lleol.

**STEAM Summary 2019 RCTCBC, GTS (UK) Ltd*

Mae gwaith gwych eisoes wedi'i wneud o fewn RhCT i ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau a sefydlu swyddi. Mae ein carfan Adnoddau Dynol yn rhoi cymorth i fusnesau lleol trwy roi cyngor, arweiniad a dangos y ffordd o ran datblygu'r gweithlu. Mae cyfle i ddatblygu hyn ymhellach gyda ffocws penodol ar swyddi sy'n gysylltiedig â thwristiaeth er mwyn manteisio i'r eithaf ar y swyddi newydd sy'n dod i'r sector, fel y rhai yn yr atyniadau gweithgaredd awyr agored fel Zip World Tower.

Gan weithio gyda phartneriaid fel Coleg y Cymoedd a Phrifysgol De Cymru, mae cyfleoedd i ymgymryd â gwaith i nodi prinder sgiliau yn y sector a datblygu cyrsiau a fydd yn darparu'r sgiliau sy'n ofynnol gan y diwydiant ac yn hwyluso datblygiad entrepreneuriaid twristiaeth o'r ardal.

Mae llawer o atyniadau twristiaeth yn y Fwrdeistref Sirol yn defnyddio gwirfoddolwyr ac mae hyn yn fuddiol nid yn unig i'r atyniad ei hun ond hefyd i'r gwirfoddolwyr sy'n treulio amser mewn amgylchedd lle mae modd iddyn nhw ddatblygu sgiliau i'w defnyddio mewn cyflogaeth yn y dyfodol. Mae gan wirfoddoli nifer o fuddion cymdeithasol a buddion o ran lles, a dylid ymchwilio i gyfleoedd gyda phartneriaid yn y trydydd sector.



# 5 Profiad





**Mae Profiad y Cyrchfan wrth wraidd twristiaeth RhCT. Bydd RhCT yn darparu profiad cadarnhaol, unigryw o'r radd flaenaf y bydd ymwelwyr am ei ailadrodd a dweud wrth eraill amdano.**

Mae ymwelwyr yn dod i gymoedd De Cymru a RhCT yn benodol am eu cefn gwlad rhagorol a'i amgylchedd unigryw. Mae modd i ni adeiladu ar hyn ymhellach, gan wneud y mwyaf o botensial profiadau antur gan fod Adroddiad y Farchnad Dwristiaeth Antur Fyd-eang (2020-2030) yn rhagweld twf o 11% yn y farchnad antur yn fyd-eang erbyn 2030.

Mae'n bosibl i RhCT osod ei hun fel prif gyrchfan profiad ymwelwyr ar gyfer antur (gan gynnwys twristiaeth antur ddiwylliannol a gweithgareddau antur), twristiaeth awyr agored, adrenalin a gweithgareddau, a fydd yn gwella ein cynnig twristiaeth trwy gydol y flwyddyn.

Dylen ni ddatblygu pecynnau a rhaglenni teithio sy'n seiliedig ar brofiad a fydd yn bodloni pob rhan o brofiad yr ymwelydd (bwyta, yfed, gwneud ac aros) a lle bo'n berthnasol, manteisio i'r eithaf ar berthnasoedd ac atyniadau trawsffiniol.

Er mwyn gosod RhCT fel prif gyrchfan ym Mharc Rhanbarthol y Cymoedd, dylid datblygu brand twristiaeth clir ac unigryw er budd y sector cyfan gan gynnwys atyniadau, llety, cymunedau a gwasanaethau lleol. Bydd sefydlu'r brand a'i ddatblygu'n dibynnu'n fawr ar gyfranogiad gan bartneriaethau.

Dylai cynlluniau gael eu datblygu i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd sy'n cael eu cyflwyno gan themâu twristiaeth sy'n dod i'r amlwg, fel Twristiaeth Llesiant sydd eisoes wedi'i nodi'n farchnad sy'n dwyn elw gan ddarparwyr llety fel Neuadd Glan-elái a darpar fusnesau fel Fferm Bryn Gobaith. Dylid hefyd ymchwilio i botensial hel achau a phecynnau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a'r diwylliant lleol.

Mae cyfleoedd amlwg i adeiladu ar y rhaglen gadarn o achlysuron yn RhCT gan weithio gyda Croeso Cymru ac Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru er mwyn dod ag achlysuron arbenigol a mawr i RhCT. Bydd hyn yn ei dro yn cyflwyno nifer gynyddol o ymwelwyr i'r ardal.

Mae profiad y cyrchfan yn cychwyn cyn i ymwelydd gyrraedd RhCT. Mae cyfleoedd i ail-frandio a gosod RhCT yn ffafriol ar-lein trwy ddarparu mecanwaith i drefnu a chynllunio ymweliad a theithlen cyn cyrraedd. Bydd ailddatblygu'r wefan dwristiaeth i gynnwys swyddogaethau fel mapio rhyngweithiol a'r gallu i brynu tocynnau ar gyfer theatrau ac atyniadau yn helpu i gydlynu'r cynnig i ymwelwyr a fydd yn rhoi profiad didrafferth cyn iddyn nhw gyrraedd.

Gan ymateb i ofynion ymwelwyr a thrigolion, bydd ailddatblygu gwefan dwristiaeth RhCT yn cynnwys systemau mapio rhyngweithiol, swyddogaeth e-fasnach a systemau cadw lle i wella profiad y cwsmer a'r ymwelydd. Bydd marchata llefydd penodol i'r bobl gywir yn cynyddu'r ymwybyddiaeth o'r pethau yma ymhlith y bobl sydd â diddordeb yn yr hyn sydd gan RCT i'w gynnig yn ogystal â'r bobl hynny sy'n fodlon teithio a gwario. Yn ogystal â hynny, bydd y cyfryngau cymdeithasol a marchnata digidol yn cynnig rhagor o gyfleoedd i ymgysylltiau â'r grwpiau yma.







# Y Camau Nesaf

**Mae Strategaeth Dwristiaeth RhCT yn ddogfen bartneriaeth ac rydyn ni'n argymell y dylid ei chyflwyno trwy sefydlu Bwrdd Twristiaeth Strategol RhCT yn ogystal â goruchwyliaeth gan broses Craffu'r Cyngor a phenderfyniadau'n cael eu gwneud gan y Cabinet. Dylai'r Bwrdd Strategol gynnwys cynrychiolwyr o Gyngor RhCT yn ogystal â busnesau mawr o'r Sector Twristiaeth yn RhCT ac wedi'i ategu, lle bo hynny'n briodol, gan gynrychiolwyr o'r diwydiant ehangach.**

Bydd Cyngor RhCT yn gyfrifol am werthuso ac adrodd i'r Grŵp Llywio Strategol, gan drefnu cyfarfodydd a diwygio neu addasu'r Strategaeth yma yn y dyfodol. Bydd Cyngor RhCT yn arwain ar y gwaith o gasglu data twristiaeth a'i arolygu i lywio adroddiadau Model Gweithgarwch Twristiaeth Economaidd Scarborough (STEAM) yn y dyfodol a bydd yn sicrhau bod data economaidd mewn perthynas â STEAM yn cael ei rannu gyda'r Grŵp Llywio Strategol.

Bydd adroddiadau ar y Cynllun Gweithredu Twristiaeth yn cael eu paratoi bob chwarter. Bydd Strategaeth Dwristiaeth RhCT a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn cael ei hadolygu'n flynyddol gyda mewnbwn gan Bwyllgorau Craffu a'r Grŵp Llywio Strategol.